# Y Pwyllgor ar y Rheolau Sefydlog

## CSO(2)-07-06 (p1)

### Dyddiad: 3 Gorffennaf 2006
### Lleoliad: Cynulliad Cenedlaethol Cymru, Bae Caerdydd
### Teitl: Rheol Sefydlog 1 – Y Llywydd a'r Dirprwy

#### 1. Y Cefndir

Ar hyn o bryd, mae Rheol Sefydlog 1 yn rheoleiddio sut mae'r Llywydd a'r Dirprwy yn cael eu hethol ac yn nodi eu dyletswyddau a'u pwerau. Mae hefyd yn nodi'r weithdrefn i ymdrin ag ymddiswyddo a swyddi gwag. Cafodd swyddi'r Llywydd a'r Dirprwy eu creu gan Ddeddf 1998 ond mae'r Mesur cyfredol yn nodi eu cyfrifoldebau'n fanylach.

#### 2. Y Rheol Sefydlog Newydd

Mae'r atodiad yn nodi'r newidiadau y bydd angen eu gwneud yn y Rheol Sefydlog gyfredol er mwyn ymdopi â'r Mesur a, lle mae dewisiadau ar gael, mae'n gofyn cwestiynau penodol. Pan fydd y Pwyllgor wedi cytuno ar yr hyn y bydd angen ei gynnwys yn y Rheol Sefydlog newydd, bydd y Clercod yn drafftio Rheol Sefydlog newydd i'r Pwyllgor gytuno arno.

#### 3. Darpariaethau'r Mesur

Mae darpariaethau ar gyfer y Llywydd a'r Dirprwy yn cael eu gwneud yng nghymal 25 o'r Mesur. Maen nhw'n nodi:

Gweithdrefnau ar gyfer ethol Llywydd a Dirprwy o blith Aelodau'r Cynulliad. [cymal 25(1)]

Disgrifiad o deitlau'r swyddi a darpariaeth i'r Rheolau Sefydlog ddiwygio'r teitlau. [cymal 25(2)]

Cyfnod y swydd, sy'n wahanol i'r ddwy swydd. [cymalau 25(3) a (4)]. Gweler isod i gael rhagor o fanylion.

Darpariaeth ar gyfer ymddiswyddo ac ar gyfer diswyddo'r Llywydd a'r Dirprwy. [cymal 25 (5)]

Bod rhaid i'r Llywydd a'r Dirprwy beidio â pherthyn i'r un grwp neu grwpiau gwleidyddol sydd â rôl weithredol [cymalau 25(7)–(9)]

O dan ba amgylchiadau y caiff y Dirprwy arfer swyddogaethau'r Llywydd [cymalau 25 (10) ac (11)].

Y caiff y Rheolau Sefydlog ddarparu i swyddogaethau'r Llywydd gael eu harfer gan unrhyw berson a bennir yn y Rheolau Sefydlog neu y penderfynir arno yn unol â nhw os bydd y Llywydd a'r Dirprwy ill dau yn methu gweithredu. [cymal 25(12)]

Y caiff y Rheolau Sefydlog gynnwys darpariaeth ar sut mae'r Llywydd a'r Dirprwy yn cymryd rhan (gan gynnwys pleidleisio) yn nhrafodion y Cynulliad [cymal 25(13)].

Nid yw'r Mesur yn cynnwys yr un cyfeiriad at ddarpariaethau y mae'n rhaid eu cynnwys yn y Rheolau Sefydlog mewn perthynas â'r Llywydd a'r Dirprwy.

Efallai y bydd y Pwyllgor am ystyried trafodaeth Pwyllgor Mesur Llywodraeth Cymru ar gymal 4 2 (b), sy'n datgan bod rhaid i'r Cynulliad gyfarfod cyn pen saith diwrnod ar ôl yr etholiad. Mae hyn yn effeithio ar Reol Sefydlog 1.8 ynghylch cydbwysedd y pleidiau ac 1.12 ynghylch pleidleisio. [Cofnod y Trafodion. GWB 03-06 - 719]

### 4. Pwyntiau i'w nodi

4.1 Cyfnod yn y Swydd

Mae'r Mesur yn datgan bod y Llywydd yn dal y swydd nes bod etholiad y Llywydd nesaf wedi dod i ben. Dim ond tan i'r Cynulliad gael ei gau y mae'r Dirprwy yn dal ei swydd. [cymalau 25 (3) a (4)].

Darperir ar gyfer yr "initial period", sef rhwng diwrnod y bleidlais ym mis Mai 2007 ac ethol Prif Weinidog newydd Cymru yn Atodlen 11 [paragraff 20(2)]. Yn ymarferol, mae'n golygu y bydd deiliad swydd y Llywydd cyn etholiad 2007 yn parhau yn ei swydd, ar yr amod bod y person hwnnw'n ymgeisydd yn yr etholiad a'i fod yn cael ei ddychwelyd yn Aelod o'r Cynulliad, nes i Lywydd newydd gael ei ethol.

Os digwydd na chaiff y Llywydd ei ddychwelyd yn Aelod o'r Cynulliad, mae Atodlen 11 yn darparu i'r Clerc gyflawni rhai swyddogaethau dirprwyedig ac i'r Gweinidogion lofnodi offerynnau is-ddeddfwriaeth. [Atodlen 11 paragraffau 22 a 23]

4.2 Comisiwn y Cynulliad

Y Llywydd fydd Cadeirydd Comisiwn y Cynulliad [Atodlen 2 para 11(2)]. Wrth ystyried Rheolau Sefydlog sy'n caniatáu i bersonau eraill gyflawni swyddogaethau'r Llywydd, bydd angen egluro na fydd hyn yn gymwys i rôl y Llywydd fel aelod o'r Comisiwn. Mater i'r Comisiwn yw penodi un arall o'i aelodau i gadeirio cyfarfodydd os bydd swydd y Llywydd yn wag neu os na all y Llywydd weithredu. Atodlen 2 para 11(2)].

4.3 Llw neu gadarnhad teyrngarwch

Ar hyn o bryd, nid yw'r Rheolau Sefydlog yn darparu ar gyfer hyn ond mae'r Mesur yn dweud bod rhaid i'r Rheolau Sefydlog bennu'r person y mae'r llw i'w dyngu neu y mae'r cadarnhad i'w roi ger ei bron [cymal 23(2)]. Os y Llywydd fydd hwn, gallai hynny effeithio ar y Rheol Sefydlog yma ond

mae’r Aelodau’n cael cymryd rhan yn nhrafodion y Cynulliad i ethol y Llywydd a’r Dirprwy heb dyngu’r llw neu roi cadarnhad [cymal 23(4)]. Caiff y mater yma ei ystyried ymhellach pan fydd y Pwyllgor yn ystyried Rheol Sefydlog 3 sy’n ymwneud ag Aelodau.

## 5. Camau i’w cymryd

Cytuno ar yr egwyddorion sydd i’w cynnwys yn y Rheol Sefydlog yma yn unol â’r amlinelliad yn yr atodiad. Wedyn bydd y Clercod yn paratoi drafft o Reol Sefydlog ddiwygiedig i’r Pwyllgor ei ystyried. Efallai y bydd y Pwyllgor am ymgynghori’n benodol â’r Llywydd a’r Dirprwy ar y Rheol Sefydlog yma.

Uned Gweithdrefnau Mesur Llywodraeth Cymru

Mehefin 2006